

# **Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Meddygfa'r Llan, Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad arolygu: 17 Gorffennaf  
2019

Dyddiad cyhoeddi: 18 Hydref  
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	17
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	23
4.	Beth nesaf? .....	26
5.	Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....	27
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	28
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	29
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	33

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

**Rhoi sicrwydd:**

**Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal**

**Hybu gwelliant:**

**Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da**

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

**Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer**

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa'r Llan, yn Stryd Portland, Aberystwyth, SY23 2DX, o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 17 Gorffennaf 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri o reolwyr arolygu AGIC, (gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad), adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis, a rheolwr arolygu AGIC a oedd yn gweithredu fel yr adolygwr lleyg.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o feddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod Meddygfa'r Llan yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd gan y practis dîm sefydledig yn gweithio mewn awyrgylch dymunol a chyfeillgar, ac roedd pwyslais clir ar roi profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Gwelsom nifer bach o feysydd lle y gellid gwneud gwelliannau.

Nodwyd gennym bod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Trin y cleifion ag urddas a pharch
- Enghreifftiau cadarnhaol o ryngweithio rhwng y staff a'r cleifion
- Safon y trefniadau ar gyfer cadw cofnodion cleifion yn dda
- Strwythurau rheoli clir yn y practis.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cael adborth o'r arolygon boddhad cleifion a rhoi gwybod i'r cleifion am ganlyniadau'r arolygon hyn
- Cwblhau'r broses gwynion yn llawn gyda'r canlyniadau.

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### Cefndir y gwasanaeth

Ar hyn o bryd, mae Meddygfa'r Llan (y practis) yn darparu gwasanaethau i ychydig dros 10,000 o gleifion yn ardal Aberystwyth yng Ngheredigion. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda.

Mae'r practis yn cyflogi tîm sy'n cynnwys:

- Chwe meddyg teulu gan gynnwys pedwar partner, un sy'n cael ei gyflogi wrth gefn ac un cyflogedig, sy'n cyfateb i bum meddyg teulu llawn amser
- Un ymarferydd nyrsio. Nyrs gofrestrdig practis uwch yw ymarferydd nyrsio sydd wedi cael hyfforddiant i ddiagnosisio a rheoli cyflyrau meddygol cyffredin, gan gynnwys mathau o salwch cronig
- Pedair nyrs practis gan gynnwys dwy nyrs mân salwch. Maent ar gael i roi cyngor, brechiadau, rhwymynnau, profion ceg y groth a chwistrellu clustiau
- Dau weithiwr cymorth gofal iechyd. Mae gweithwyr cymorth gofal iechyd yn ymgymryd â gweithdrefnau ymarferol, fflebotomi (tynnu gwaed), profion wrin, monitro pwysedd gwaed a chofnodi canlyniadau electrocardiograff
- 14 o aelodau o staff gweinyddol gan gynnwys dau dechnegydd fferyllfa, rheolwr gweinyddol a rheolwr derbynfa.

Roedd staff ychwanegol a gyflogir gan y bwrdd iechyd gan gynnwys nyrsys ardal, ymwelwyr iechyd a chwnselwyr, hefyd wedi'u lleoli yn y practis.

Mae'r practis hefyd yn bractis hyfforddi ar gyfer myfyrwyr o Brifysgol Caerdydd (Myfyrwyr Meddygol<sup>1</sup> Blwyddyn 3 a Myfyrwyr Meddygol Blwyddyn 5) a chwmselydd dan hyfforddiant.

Roedd fferyllfa annibynnol hefyd yn rhannu'r adeilad i roi meddyginiaethau.

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Iechyd Plant (Cynhelir clinigau datblygiadol ac imiwneiddio ar y cyd gan feddyg a'r ymwelwyr iechyd.)
- Clinigau Ffliw
- Mân Lawdriniaethau
- Asthma, Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint, Pwysedd a Chlefyd Coronaidd y Galon
- Clinig Teithio
- Sgrinio Serfigol
- Rhoi'r Gorau i Smygu
- Cynllunio Teulu ac Atal Cenhedlu Brys
- Gwiriadau Pwysedd Gwaed
- Atal Cenhedlu
- Clinigau Diabetes
- Gofal y clustiau
- Brechiadau.

---

<sup>1</sup> <https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/courses/2020/medicine-mbbch>



## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch gan dîm y practis, a gwelsom enghreiffiau o ryngweithio cadarnhaol rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y practis yn rhoi pwyslais ar gynnig profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Roedd amrywiaeth o daflenni gwybodaeth i gleifion yn cael eu harddangos yn y practis, er mwyn i'r cleifion eu cadw, yn ymwneud â chyflyrau amrywiol.

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Ar ddiwrnod yr arolygiad, siaradodd ein harolygwyr â chleifion hefyd er mwyn cael gwybod am eu profiadau yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 48 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif llethol o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn gleifion hirdymor yn y practis (wedi bod yn gleifion ers mwy na dwy flynedd).

Yn yr holiadur gofynnwyd i'r cleifion sgorio'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis. Cafwyd ymatebion cadarnhaol; dywedodd y mwyafrif o'r cleifion fod y gwasanaeth naill ai'n ardderchog neu'n dda iawn. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

*"Mae'r staff yn y dderbynfa a'r meddygon teulu bob amser yn barod iawn eu cymwynas – gan gynnwys y nyrsys arbenigol "*

*"Mae pawb, o'r derbynyddion i'r nyrsys a'r meddygon, yn barod eu cymwynas"*

*"Fel rhywun sy'n gofalu am ddau riant oedrannus, rwy'n teimlo bod y staff a'r meddygon teulu yn barod iawn eu cymwynas pan fo angen apwyntiadau arnynt"*

Yn yr holiaduron, gofynnwyd i'r cleifion sut y gallai'r practis wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd sylwadau yn awgrymu gwelliannau yn cynnwys:

*“Mwy o Feddygon sy'n siarad Cymraeg”*

*“Agor ar fore Sadwrn”*

*“Mwy o apwyntiadau hwyr”*

Roedd y practis wedi'i leoli mewn hen eglwys, ac mae wedi cael ei gwblhau i safon uchel a modern. Roedd mynediad gwastad i flaen y practis, ac roedd drysau awtomatig yn rhoi mynediad hawdd i'r rhai hynny ag anawsterau symudedd. Roedd y practis ar dri llawr (gyda mynediad i'r cleifion i'r ddau lawr isaf), yn eang ac yn olau drwyddo.

## **Cadw'n iach**

Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth i gleifion yn yr ardaloedd aros ac o gwmpas y practis. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth o ddeunydd hybu iechyd, fel rhoi'r gorau i smygu, ymwybyddiaeth o alcohol, sgrinio ar gyfer canser ac iechyd cyn-filwyr. Roedd gan y practis hefyd boster yn cynnwys nifer o godau QR<sup>2</sup>, yn rhoi amrywiaeth eang o wybodaeth am y practis yn ogystal â gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd wedi'i hanelu'n benodol at fyfyrwyr. Golygai hyn fod y cleifion yn gallu sganio'r codau ar eu dyfeisiau symudol er mwyn cael gwybodaeth a'i darllen ar amser a oedd yn gyfleus iddynt. Roedd nifer o bosteri rhoi'r gorau i smygu 'Helpa fi i Stopio Cymru' wedi'u harddangos.

Roedd yna arddangosfa gynhwysfawr o wasanaethau a gwybodaeth trydydd sector, gan gynnwys dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol, gwasanaeth cyfeillgarwch, Macmillan a'r British Heart Foundation. Roedd bwrdd gwybodaeth dynodedig i ofalwyr hefyd yn cael ei arddangos. At hynny, roedd yr ystafell aros i fyny'r grisiau yn arddangos amrywiaeth o ddeunydd am iechyd babanod a oedd yn cynnwys gwybodaeth am imiwneiddio, llid yr ymennydd a bwydo ar y fron.

---

<sup>2</sup> Codau QR yw'r sgwariau du a welir ar wefannau, posteri ac ati, y gellir eu sganio â ffôn/dyfais glyfar, ac maent yn mynd â chi yn syth at amrywiaeth o wybodaeth, h.y. gwefan y practis, grwpiau hunangymorth, gwybodaeth am ffordd iach o fyw

Roedd gan y practis hefyd boster yn cynnwys nifer o godau QR<sup>3</sup>, yn rhoi amrywiaeth eang o wybodaeth am y practis yn ogystal â gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd. Golygai hyn fod y cleifion yn gallu sganio'r codau ar eu dyfeisiau symudol er mwyn cael gwybodaeth a'i darllen ar amser a oedd yn gyfleus iddynt.

Roedd yr ystafell aros ar y llawr gwaelod yn cynnwys digon o gadeiriau â chlustog a chadeiriau â chefn uchel. Roedd gwybodaeth gynhwysfawr am lesiant, hybu iechyd a gwybodaeth berthnasol yn cael ei harddangos, ac ar gael i'r cleifion ei chadw. Roedd hyn ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Roedd sgrin deledu hefyd yn dangos gwybodaeth i'r cleifion am y practis a hefyd yn galw'r cleifion i'r ystafell driniaeth briodol pan yn barod.

Roedd y staff nyrsio yn cynnal nifer o fentrau hybu iechyd. Roedd y rhain yn cynnwys: annog y cleifion i gael profion ceg y groth, gordewdra a hybu bwyta'n iach, rheoli deiet er mwyn atal diabetes, a rhoi'r gorau i smygu, gyda cherdyn cyngor y GIG ar gael yn cyfeirio'r cleifion at y fferylllydd.

## **Gofal ag urddas**

Roedd pawb ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur, a chleifion y gwnaethom siarad â nhw, yn teimlo eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch gan staff y practis. Fodd bynnag, dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym mai dim ond weithiau y gallent weld eu dewis feddyg.

Roedd ardal y dderbynfa wedi'i lleoli ym mynedfa'r practis ac roedd i ffwrdd o'r brif ardal aros. Roedd hyn yn galluogi staff y dderbynfa i gael sgysiau mwy preifat â'r cleifion. Roedd arwydd ar ddesg y dderbynfa hefyd a oedd yn gofyn i'r cleifion roi gwybod i staff y dderbynfa os byddent am siarad mewn ystafell breifat. Roedd galwadau ffôn yn cael eu hateb mewn ardal y tu ôl i bared wydr ger desg y dderbynfa, a oedd yn sicrhau preifatrwydd ychwanegol i'r cleifion.

Roedd drysau'r ystafelloedd triniaeth ac ymgynghori yn cael eu cau yn ystod apwyntiadau, a oedd yn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu

---

<sup>3</sup> Codau QR yw'r sgwariau du a welir ar wefannau, posteri ac ati, y gellir eu sganio â ffôn/dyfais glyfar, ac maent yn mynd â chi yn syth at amrywiaeth o wybodaeth, h.y. gwefan y practis, grwpiau hunangymorth, gwybodaeth am ffordd iach o fyw

cynnal. Roedd gan bob gwely triniaeth lenni preifatrwydd tafladwy er mwyn cynnal urddas y cleifion ymhellach.

Gwelwyd staff y dderbynfa yn siarad â'r cleifion mewn tŷn garedig a phroffesiynol. Roeddent hefyd yn siarad â'r cleifion yn eu dewis iaith, er enghraifft yn Gymraeg, pan roedd angen. Roedd sawl siaradwr Cymraeg yn y practis a oedd yn gwisgo bathodyn 'Cymraeg', a oedd yn nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg â'r cleifion, ac yn barod i wneud hynny.

### **Gwybodaeth i gleifion**

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau.

Roedd peiriant hunangofnodi ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg gerllaw ardal y dderbynfa.

Roedd enwau'r meddygon teulu i'w gweld y tu allan i'r practis. Roedd rhestr gyflawn o'r staff, yn cynnwys eu harbenigeddau, hefyd i'w gweld ar wefan y practis. Roedd gwybodaeth benodol i'r practis ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gynnwys poster gwybodaeth i'r cleifion, a oedd yn tynnu sylw at wybodaeth am y practis ac oriau agor.

Mae'r cleifion yn elwa o oriau agor hwyr tan 8pm ar nos Fercher. Mae'r fferyllfa sydd a y safle hefyd yn ymestyn ei horiau agor yn unol â rhai'r practis ar nos Fercher.

Dywedodd staff y practis wrthym fod cyfartaledd o 8000 yn ymweld â'u gwefan yn flynyddol, ac mae 160 o gleifion wedi cofrestru ar gyfer Fy Iechyd Ar-lein<sup>4</sup>. Yn sgil y nifer fawr o ymweliadau â'r wefan, cynghorir y practis i ystyried annog mwy o gleifion i ddefnyddio'r gwasanaethau ar-lein. Roedd negeseuon testun yn cael eu defnyddio yn ystod ymgyrchoedd ffliw<sup>5</sup> blynyddol.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

---

<sup>4</sup> <https://www.myhealthonline-inps2.wales.nhs.uk/web/ps/welcome>

<sup>5</sup> <https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/curwch-ffliw/>

Dyweddod ychydig o dan draean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym mai dim ond weithiau roeddent yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith. Fel y nodwyd yn gynharach, roedd nifer o siaradwr Cymraeg yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw feddygon teulu yn siarad Cymraeg, a chawsom wybod bod staff eraill ar gael i gefnogi gyda rhwystrau o ran y Gymraeg os oedd angen. At hynny, dywedodd bron pob un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein hymweliad eu bod yn gallu siarad yn eu dewis iaith.

Roedd gwasanaeth Language Line<sup>6</sup> yn cael ei ddefnyddio hefyd i helpu i gyfathrebu â'r cleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Nodwyd tystiolaeth o'r adnodd cyfathrebu hwn yn ystod ein hymweliad. Roedd gan y practis hefyd ddolen sain i helpu'r cleifion neu'r ymwelwyr a oedd yn drwm eu clyw i gyfathrebu. Roedd gwybodaeth ar gael mewn braille ar gais. Roedd arwyddion braille yn y practis hefyd.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur a'r rhai hynny y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo bod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad. Roedd hyn mewn ffordd y gallent ei deall, a gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys, mewn penderfyniadau a wneir am eu gofal.

Roedd y llythyron o'r ysbyty lleol yn cael eu hadolygu gan y tîm gweinyddol, ac roedd y diagnosis yn cael ei godio. Roedd unrhyw newidiadau i feddyginiaeth ysbyty yn cael eu hanfon at y tîm rhagnodi, ac roedd unrhyw gamau gweithredu roedd yn rhaid i'r nyrs neu'r meddyg teulu eu cymryd yn cael eu cyfeirio at y clinigydd priodol. Gwnaethom adolygu pum llythyr rhyddhau, ac roedd gan bob un ohonynt y wybodaeth briodol ynddynt.

## **Gofal amserol**

Dyweddod pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn fodlon iawn neu'n gymharol fodlon ar oriau agor y practis, a dywedodd y mwyafrif ei fod yn hawdd iawn neu'n gymharol hawdd i gael apwyntiad pan oedd ei angen. Fodd bynnag, nid oedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw a'r cleifion a gwblhaodd holiadur ar y diwrnod yn fodlon eu bod yn gorfod gwneud apwyntiad i weld

---

<sup>6</sup> <https://www.language.com/uk>

meddyg teulu ar y diwrnod, a byddai'n well ganddynt wneud apwyntiadau o flaen llaw. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Gall fod yn anodd weithiau"

"Mae'n well gennyf ffonio ar unrhyw adeg"

"Gall ffonio ar y diwrnod beri ychydig o ofid"

Fodd bynnag, nododd un claf:

"Cyn gynted ag y byddaf yn ffonio ben bore, rwy'n cael un (apwyntiad) – da iawn – dim problem".

Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio eu profiad cyffredinol o drefnu apwyntiad, dywedodd bron pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur ei fod yn dda iawn neu'n dda.

Ni welsom gleifion yn aros yn hir iawn yn y dderbynfa am eu hapwyntiad. Dywedodd staff y dderbynfa y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn rhoi gwybod i'r cleifion petai yna oedi sylweddol. Byddent hefyd yn cynnig y cyfle i'r cleifion ddychwelyd i'r practis yn nes ymlaen yn y diwrnod.

Mae'r practis yn gweithredu system lle mae'n rhaid i'r cleifion ffonio neu gerdded i mewn ar y diwrnod yn bennaf i drefnu amser apwyntiad. Dim ond ar gais y meddyg yr oedd modd trefnu apwyntiadau o flaen llaw, er enghraifft, os oedd yn rhaid i ofalwyr ddod gyda'r claf, neu pan oedd asiantaethau allanol fel y Groes Goch yn hebrwng claf.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, roedd gan y practis fynediad gwastad a drysau awtomatig, a oedd yn rhoi mynediad haws i ddefnyddwyr cadair olwyn a'r rhai hynny sydd ag anawsterau symudedd. Roedd ystafelloedd triniaeth ar lawr gwaelod a llawr cyntaf y practis. Nid oedd lifft ar gael ac felly dywedodd y staff wrthym y gellir gweld neu drin cleifion â phroblemau symudedd yn yr ystafelloedd triniaeth ar y llawr gwaelod.

Roedd gan y practis hyrwyddwyr gofalwyr enwebedig er mwyn helpu i roi gwybodaeth ddefnyddiol i ofalwyr am asiantaethau a sefydliadau lleol a all roi cymorth iddynt â'u cyfrifoldebau o ddydd i ddydd. Roedd ffurflenni cofrestru cleifion yn gofyn am wybodaeth ynglŷn ag anghenion ychwanegol, fel gofalwr.

Lle y bo'n berthnasol, roedd nodyn yn cael ei roi ar y system glinigol i nodi unrhyw anghenion ychwanegol.

## Hawliau pobl

Nid oedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod ein harolygiadau yn gwybod â phwy i gysylltu os byddent am wneud cwyn neu godi pryder. Fodd bynnag, gwnaethant ddweud y byddent yn mynd at staff y dderbynfa petai angen. Roedd gwybodaeth wedi'i harddangos yn glir yn ardal y dderbynfa yn nodi sut i godi cwyn neu bryder. Roedd hyn yn cynnwys manylion ar gyfer y Cyngor Iechyd Cymuned<sup>7</sup> a gwybodaeth am broses Gweithio i Wella GIG Cymru.<sup>8</sup> Roedd y wybodaeth hefyd ar gael yn ddwyieithog i'r cleifion fynd â chopi adref gyda nhw.

Roedd polisi ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â chyfle cyfartal, ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran hawliau'r pobl. Roedd gan y practis bolisiâu cydsynio ar waith a oedd yn cynnwys ystyried mân anafiadau.

Gallai perthnasau neu ofalwyr aros gyda'r cleifion yn y practis ac yn ystod eu hymgyngoriad neu eu triniaeth os oeddent yn dymuno. Roedd gan y practis bolisi hebrwng ar waith, ac roedd hysbysiad yn yr ystafell aros a'r ystafelloedd triniaeth yn rhoi gwybod i'r cleifion am y weithdrefn hebrwng. Defnyddir hebryngwr i ddiogelu pob parti (cleifion ac ymarferwyr), ac i dystio i gydsynio parhaus y driniaeth.

Roedd cyfrinachedd yn rhan o'r broses sefydlu i bob aelod o'r staff, gan gynnwys meddygon teulu dan hyfforddiant a myfyrwyr meddygol. Roedd polisi hefyd ar waith ar gyfer hyn ac roedd pob aelod o'r staff wedi ei lofnodi i ddangos eu bod

---

<sup>7</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/tudalen/71621>

<sup>8</sup> 'Gweithio i Wella ' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Mae pryderon yn cynnwys materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â chyrrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru.

wedi darllen y polisi hwn. At hynny, roedd tystiolaeth bod y staff wedi ymgymryd â hyfforddiant Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.<sup>9</sup>

### Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Roedd ffurflenni sylwadau ar gael yn y dderbynfa ac roedd pob sylw yn cael ei ffeilio. Roedd modd gwneud sylwadau ac awgrymiadau drwy'r wefan hefyd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw broses ar waith ar gyfer rhoi gwybod i gleifion am ganlyniadau neu gamau gweithredol a oedd yn deillio o'r awgrymiadau.

Rhodddwyd pwyslais ar ddelio â ffynhonnell unrhyw gwynion er mwyn datrys materion mor gyflym â phosibl. Roedd pob cwyn yn cael ei dwyn i sylw rheolwr y practis a fyddai'n delio â nhw yn unol â pholisi'r practis.

Roedd gweithdrefn gwyno fanwl a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y ffeil cwynion. Fodd bynnag, nid oedd canlyniadau'r cwynion yn cael eu dogfennu.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Ystyried sut i roi adborth i gleifion am unrhyw gamau gweithredu neu ganlyniadau sy'n deillio o'u hawgrymiadau
- Sicrhau bod y ffeil cwynion yn cynnwys gwybodaeth lawn am y gŵyn, gan gynnwys canlyniad y gŵyn.

---

<sup>9</sup><https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/>



## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i hybu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w gleifion.

Roedd y gwasanaeth yn lân ac yn daclus, ac roedd trefniadau rheoli heintiau da ar waith.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a gawsom o safon dda, gan helpu i ddangos gofal o safon dda.

Gwelwyd cyfathrebu effeithiol yn fewnol a chyda'r tîm clinigol ehangach, er mwyn sicrhau diogelwch ac er budd y cleifion.

## Gofal diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd gan y practis gofrestr risg gynhwysfawr, ac roedd asesiadau risg ar waith ac yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. Roedd gan y practis hefyd gynllun parhad busnes, a oedd yn tynnu sylw at ddefnyddio safle arall petai angen.

Roedd y practis yn eang ac yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon baglu eraill. Roedd arolygiadau'r gweithle yn cael eu cwblhau'n fisol a'u dogfennu ar ffurflen archwilio. Gwelsom hefyd fod y cyfarpar diogelwch tân yn cael eu harchwilio'n rheolaidd, a bod y staff yn cael hyfforddiant diogelwch tân yn ystod eu rhaglen sefydlu.

Roedd proses ar waith i sicrhau bod y staff wedi darllen y polisïau a'r gweithdrefnau amrywiol a'u bod yn ymwybodol ohonynt. Roedd hyn yn cynnwys ffolder i ddarllen am unrhyw newidiadau. Roedd gofyn i'r staff lofnodi'r ddogfen i ddangos eu bod wedi darllen a deall y newidiadau. Roedd polisïau a gweithdrefnau hefyd yn cael eu cadw ar y gyriant electronig a rennir. Fel rhan o'r broses sefydlu, roedd y staff newydd yn cael llawlyfr a pholisïau'r practis.

### Atal a rheoli heintiau

Nid oedd gan y cleifion unrhyw bryderon ynghylch glendid y practis; roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis yn lân iawn.

Dyweddodd y staff wrthym fod cyfarpar diogelu personol ar gael iddynt, megis menig a ffedogau plastig untro, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Roedd yr ardaloedd trin clinigol a welsom yn lân ac yn daclus. Gwelsom fod cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn yr ardaloedd clinigol a'r toiledau. Roedd peiriannau glanweithydd dwylo ar gael o gwmpas y practis hefyd.

Gwelsom fod y llenni yn yr ystafelloedd triniaeth yn rhai tafladwy a olygai bod modd eu tynnu oddi yno a rhoi rhai newydd yn eu lle yn hawdd pe byddent yn cael eu halogi neu eu baeddu. Roedd hyn yn dangos ymrwymiad da i atal a rheoli heintiau.

Roedd gan y practis bolisi rheoli heintiau ac roedd tystiolaeth bod archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cynnal.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff anghlinigol wedi cael hyfforddiant ar reoli heintiau. Roedd y staff clinigol wedi cael hyfforddiant techneg peidio â chyffwrdd aseptic<sup>10</sup> i leihau'r risgiau o heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Roedd pob aelod perthnasol o'r staff wedi cael imiwnedd rhag Hepatitis B, ac roedd tystiolaeth o hyn wedi'i gofnodi yn ffeiliau'r staff.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Byddai unrhyw broblemau gyda rheoli meddyginiaethau neu ddigwyddiadau arwyddocaol yn cael eu trafod wrth iddynt godi, ac yng nghyfarfod y meddygon teulu sy'n bartneriaid hefyd. Roedd adweithiau niweidiol i gyffuriau yn cael eu hadrodd i'r bwrdd iechyd drwy'r system Cerdyn Melyn.<sup>11</sup>

---

<sup>10</sup> Fframwaith Ymarfer Clinigol yw'r Dechneg Peidio â Chyffwrdd Aseptig ar gyfer sicrhau techneg aseptic o safon uchel, a dangoswyd ei fod wedi helpu i leihau Heintiau a Gaffaelwyd mewn Ysbyty.

<sup>11</sup>

<http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/cyfeiriadur/RhaglenniaGwasanaethauCenedlaethol/372>

Roedd gan y practis ddau dechnegydd fferyllfa<sup>12</sup> a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd eu rôl yn cynnwys adolygu meddyginiaethau yn ystod ymgynghoriadau ac yn ystod apwyntiadau adolygu meddyginiaethau hefyd.

Gwelsom fod cofnod o archwiliadau rheolaidd o offer a chyffuriau i'w defnyddio mewn argyfwng (fel claf yn llewygu). Gwelsom hefyd gofnodion bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfwng yn ymwneud â chleifion yn rheolaidd.

Gwelsom fod tymereddau'r oergelloedd a ddefnyddir i storio brechlynnau yn cael eu gwirio'n gyson bob dydd. Gwneir hyn er mwyn sicrhau y caiff brechlynnau eu storio ar dymheredd priodol i wneud yn siŵr eu bod yn addas i'w defnyddio bob amser.

### Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu plant ac oedolion ar waith ac roedd un o'r meddygon teulu wedi cael ei benodi yn arweinydd diogelu'r practis. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu plant ac oedolion ar lefel briodol ar gyfer eu swyddi.

Disgrifiwyd y trefniadau sydd ar waith i gofnodi a diweddarau gwybodaeth berthnasol am amddiffyn plant ar y system cofnodion cleifion electronig. Cawsom wybod, lle y bo'n gymwys, fod rhybuddion yn cael eu gosod ar y system cofnodion cleifion electronig, neu'n cael eu dileu, pan fyddai unrhyw fater amddiffyn plant yn cael ei nodi neu pan fyddai unrhyw ddiwygiadau i'r rhai presennol.

Cawsom wybod fod y practis yn mynd i Gynhadledd Asesiad Risg Amlasiantaethol (MARAC)<sup>13</sup> ac amddiffyn plant lle y bo'n bosibl.

---

<sup>12</sup>Bydd y rôl hon yn gweithio fel rhan o'r tîm ymarfer cyffredinol i ddarparu cyngor rheoli meddyginiaethau arbenigol i feddygon teulu, nyrsys practis, fferyllwyr cymunedol, nyrsys cymunedol a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill i hybu'r defnydd diogel, effeithiol, ansawdd uchel a chost effeithiol o feddyginiaethau ym mhob penderfyniad rhagnodi

<sup>13</sup>Rôl yr MARAC yw darparu fforwm ar gyfer rannu gwybodaeth yn effeithiol a gweithio mewn partneriaeth ymysg amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar oedolion a phlant er mwyn gwella diogelwch dioddefwyr risg uchel a'u plant.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i roi gwybod am ddiwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol. Roedd digwyddiadau arwyddocaol yn cael eu hadolygu a'u trafod yng nghyfarfod bore pob chwe wythnos y partneriaid, a gwelwyd cofnodion o'r rhain yn y practis. Byddai unrhyw bwyntiau dysgu yn cael eu rhannu â'r staff a'u trafod mewn unrhyw gyfarfodydd clinigol.

Cadarnhaodd y staff clinigol fod tîm rheoli'r practis yn anfon rhybuddion diogelwch perthnasol. Disgrifiwyd trefniadau hefyd i drafod arfer gorau a chanllawiau proffesiynol â'r staff a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt amdanynt.

Gwnaethom siarad ag aelodau o dîm y practis ar ddiwrnod ein harolygiad ac roeddem wedi llwyddo i gadarnhau bod y staff yn cael eu hannog a'u grymuso i godi unrhyw bryderon a all fod ganddynt am ddiogelwch cleifion a/neu eu diogelwch eu hunain.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd y practis yn aelod gweithredol o Glwstwr Gogledd Ceredigion<sup>14</sup> ac yn cwrdd fel clwstwr chwe gwaith y flwyddyn. Roedd y practis yn rhan o gynllun peilot i gwmpasu gofal y tu allan i oriau i gleifion mewn cartrefi gofal, y cawsom wybod ei fod yn llwyddiannus.

Mae'r Adnodd Hunan-Asesu Arferion Llywodraethu Clinigol (CGPSAT)<sup>15</sup> a chynllun gweithredu Rhwydwaith Clwstwr Gogledd Ceredigion yn cyfeirio at y practis yn arwain ar y prosiect cyn-diabetes. Nod y prosiect yw lleihau'r risg o ddatblygu diabetes math 2 drwy ymyrraeth fer a chyfeirio cleifion at wasanaethau cymorth.

---

<sup>14</sup> <http://www.primarycareone.wales.nhs.uk/north-eredigion>

<sup>15</sup> <http://www.primarycareone.wales.nhs.uk/clinical-governance-practice-self-assess>

Yn dilyn menter gyda'r clwstwr, gall y staff bellach gael eu cyfeirio'n uniongyrchol at y Tîm Ffisiotherapi Gyhyrsgerberbydol<sup>16</sup>. Roedd cwnselydd hefyd yn cael ei gefnogi gan y practis drwy hyfforddiant, a'r gobaith oedd y gallai'r cwnselydd gael ei ddefnyddio fwy unwaith y bydd wedi cymhwyso.

Roedd y practis hefyd yn rhan o wasanaeth newydd sy'n annog cleifion i gymryd rhan mewn rhaglen o weithgareddau yn ymwneud ag iechyd awyr agored a llesiant<sup>17</sup>. Roedd y rhain yn cynnwys grwpiau cerdded, grwpiau gweithgareddau sgiliau coetir a sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar byd natur.

Mae nifer o archwiliadau wedi cael eu cwblhau yn y practis gan gynnwys archwilio gwasanaethau ychwanegol a gwrthfotigau, i wella sicrhau ansawdd a gwella ansawdd. Roedd archwiliadau'n cael eu trafod mewn cyfarfodydd os yn briodol ac mewn arfarniadau.

Mae'r practis yn bractis hyfforddi achrededig ac mae'n hyfforddi cofrestryddion mewn ymarfer cyffredin o dan oruchwyliaeth Ysgol Feddyginiaeth Prifysgol Cymru. Mae'r gallu i arsylwi ar ymgynghoriadau yn agwedd hanfodol ar eu hyfforddiant. Fodd bynnag, mae angen cydsyniad y claf. Byddai'r cleifion yn cael gwybod os oedd eu meddyg teulu yn addysgu myfyrwyr a'u bod yn gallu gweld eu meddyg heb i'r meddyg dan hyfforddiant fod yn bresennol, os byddai'n well ganddynt hynny.

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Roedd y CGPSAT yn nodi bod y practis wedi cwblhau Adnodd Llywodraethu Gwybodaeth Cymru yn rheolaidd. Adnodd hunanasesu yw hwn sy'n galluogi'r practis i fesur lefel eu cymhwysedd yn erbyn y Safonau Llywodraethu Gwybodaeth Cenedlaethol, a phenderfynu p'un a yw'r wybodaeth yn cael ei thrin a'i diogelu'n briodol yn y practis.

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth glir ar waith. Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i gael gafael

---

<sup>16</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/862/page/91610>

<sup>17</sup> [www.ecodyfi.cymru](http://www.ecodyfi.cymru)

ar y wybodaeth hon. Roedd cofnodion cleifion hefyd yn cael eu storio a'u diogelu'n briodol er mwyn atal mynediad iddynt heb awdurdod.

### **Cadw cofnodion**

Edrychom ar sampl o gofnodion cleifion ac ar y cyfan, roeddent o safon dda iawn, gan gefnogi'r gofal a'r driniaeth a roddir i'r cleifion. Roedd hyn yn cynnwys hanes y cleifion, cofnodion o'r archwiliad, dogfennaeth i ddangos diagnosis ac ansawdd y naratif. Gwnaethom hefyd nodi bod ymgynghoriadau a gofnodir gan yr ymarferu ydd nyrsio o safon uchel.

Mae dau aelod o'r tîm gweinyddol yn bwrw golwg dros y post yn ddyddiol. Maent yn codio gwybodaeth glinigol, ac yn dirprwyo camau gweithredu i'r aelodau perthnasol o'r staff, er mwyn mynd i'r afael â'r cynnwys. Roedd hyn yn cynnwys newidiadau i feddyginiaeth, camau gweithredu clinigol a phroffion dilynol.

Cawsom wybod fod aelodau o'r staff anghlinigol yn crynhoi cofnodion y cleifion ar ôl iddynt gael hyfforddiant gan y staff profiadol. Cawsom wybod fod aelod o'r tîm gweinyddol yn archwilio'r gwaith o grynhoi, ac mae un o'r meddygon teulu sy'n bartneriaid hefyd yn archwilio'r gwaith sydd wedi cael ei grynhoi yn ddyddiol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom dîm cadarn dan arweiniad rheolwr practis trefnus a oedd â'r nod o ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Roedd y staff yn y practis yn gadarnhaol am y cymorth yr oeddent yn ei gael gan y tîm rheoli.

Gwelsom dîm cydlynol, ac roedd sianeli cyfathrebu ar gyfer rhannu gwybodaeth ym mhob rhan o'r practis. Gellid gwella hyn ymhellach drwy gyfarfodydd staff rheolaidd ar bob lefel.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd y practis yn cael ei redeg yn dda gan y rheolwr practis sy'n gyfrifol am reoli'r holl weithgareddau anghlinigol, ac mae'r rheolwr gweinyddol yn canolbwyntio ar ddiogelwch a llywodraethu.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hapus yn gweithio yn y practis ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn i gyflawni eu rolau perthnasol. Roedd hi'n amlwg o'n hymweliad bod tîm y practis yn benderfynol o ddarparu gwasanaethau o ansawdd i'r cleifion ac yn ymrwymedig i wneud hynny. Roedd hi'n amlwg bod y practis yn canolbwyntio ar y claf.

Roedd y staff hefyd yn teimlo bod cyfathrebu yn y practis yn dda. Gwnaethant gadarnhau hefyd eu bod yn teimlo y gallant godi unrhyw bryderon am eu gwaith gyda'u rheolwr. Roedd hyn yn dangos diwylliant o roi gwybod am bryderon a oedd yn hybu llesiant y staff a'r cleifion.

Cawsom wybod fod y staff yn cael amser i gael hyfforddiant, er y gwnaeth rhai aelodau o'r staff ddweud fod yr amser hwn wedi gostwng yn ddiweddar. Fodd bynnag, dywedodd tîm rheoli'r practis fod pedwar sesiwn hyfforddi wedi'u cynllunio ar gyfer y 12 mis nesaf.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod cymysgedd sgiliau'r staff yn cael eu hystyried yn rheolaidd. At hynny, roedd nifer o'r staff wedi cael hyfforddiant i weithio mewn meysydd eraill yn y practis, i hyrwyddo dull matrices o weithio ac i weithio pan fo absenoldebau heb eu trefnu. Cawsom wybod hefyd fod un aelod o'r staff anghlinigol yn cael hyfforddiant ar hyn o bryd i fod yn weithiwr cymorth gofal iechyd yn y practis.

Er bod y cyfathrebu yn y practis yn dda, nid oedd cyfarfodydd partneriaid rheolaidd wedi bod yn ddiweddar. Roedd cyfarfodydd busnes yn cael eu cynnal bob chwarter a chawsom wybod fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ôl y galw gyda phartneriaid. At hynny, roedd cyfarfodydd tîm y dderbynfa a'r tîm gweinyddol yn cael eu cynnal yn ôl y galw. Roedd y rhain yn anffurfiol ac nid oedd cofnodion yn cael eu cadw.

Gwnaethom nodi bod cyfarfodydd y rheolwr yn cael eu cynnal yn fisol, ac roedd y rhain yn cael eu cofnodi. Roedd cyfarfodydd clinigol hefyd yn cael eu cynnal yn fisol gyda phob aelod o'r staff clinigol. Argymhellwn fod y practis yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r staff ar lefelau amrywiol a bod pob cyfarfod yn cael ei ddogfennu, a'r cofnodion yn cael eu rhannu â'r staff.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal ar bob lefel. Dylid dogfennu cofnodion o'r cyfarfodydd hyn a'u dosbarthu i bob aelod o'r staff, a dylai'r staff gadarnhau eu bod yn deall y cofnodion.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

Roedd matrices hyfforddiant yn cael ei gynnal gan y rheolwr gweinyddol ac yn cael ei ddiweddarau pan roedd y staff yn cael hyfforddiant. Roedd copïau o dystysgrifau hyfforddiant yn cael eu cadw yn y ffolderi personél fel, amddiffyn plant, diogelu oedolion sy'n agored i niwed, iechyd a diogelwch a gweithdrefnau tân.

Roedd y rheolwr gweinyddol yn adolygu'r cynlluniau hyfforddiant yn flynyddol yn ystod y broses arfarnu, er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar yr hyfforddiant wedi cael ei gwblhau a'i gofnodi. Cawsom wybod hefyd fod y staff anghlinigol wedi cael cynnig cyfleoedd gan gynnwys hyfforddiant brysbennu cychwynol (i gyfeirio'r claf at y clinigydd mwyaf priodol o dan y canllawiau), yn y dyfodol agos.



Er bod arfarniadau'r staff yn cael eu cwblhau yn flynyddol fel arfer, nid oedd yr arfarniadau ar gyfer 2018/19 wedi cael eu cwblhau ar adeg yr arolygiad, ac roedd yr archwiliadau i fod i gael eu cynnal cyn canol mis Awst 2019.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ystyried cofnodion cyn cyflogi aelodau anghlinigol o'r staff. Cawsom wybod fod y practis yn dilyn ei bolisi ar asesiadau risg a gwiriadau cyflogaeth gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriadau hawl i weithio.

Cadarnhaodd rheolwr y practis nad oedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal fel mater o drefn ar gyfer aelodau anghlinigol o'r staff fel staff y dderbynfa a'r staff gweinyddol. Gwnaeth hyn beri ychydig o bryder i ni, ac mae'n cynnwys y canlynol:

- Mae staff y dderbynfa yn rhyngweithio â chleifion a'u teuluoedd wyneb yn wyneb, ac, ynghyd ag eraill sy'n cael hyfforddiant ar hyn o bryd, maent yn cyflawni'r rôl brysbennu ar gyfer cyfeirio cleifion at y clinigydd mwyaf perthnasol. Cawsom wybod hefyd y gall derbynyddion fynd â chleifion i ystafell breifat i drafod gwybodaeth breifat neu sensitif, pe byddai angen ar unrhyw adeg. Mae'n bosibl na fyddai unrhyw un yn goruchwyllo hyn.
- Mae rheolwr y practis yn gyfrifol am reoli'r practis a'r staff sy'n rhoi gofal uniongyrchol heb oruchwyliaeth i gleifion. Ni welsom dystiolaeth bod y practis wedi cwblhau gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer rheolwr y practis yn ystod yr arolygiad.

Fodd bynnag, mae'n gadarnhaol nodi bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol a bod y tystysgrifau'n cael eu cadw mewn ffeil. Ers hynny, mae AGIC wedi derbyn dystiolaeth bod gan reolwr y practis dystysgrif yn cadarnhau gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a gynhaliwyd gan sefydliad gwahanol yn 2017.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn â gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yr aelodau anghlinigol o'r staff o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyfiawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau meddygon teulu. Bydd practisau meddygon teulu yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae practisau meddygon teulu yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

<b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>	<b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei ddatrys</b>
Ni nodwyd unrhyw bryderon roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

### Gwasanaeth: Meddygfa'r Llan

### Dyddiad arolygu: 17 Gorffennaf 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p><b><u>Canfyddiad</u></b></p> <p>Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ofyn i reolwr y practis am dystiolaeth bod gwiriadau perthnasol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal.</p> <p>Cadarnhaodd y rheolwr nad oedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal fel mater o drefn ar gyfer aelodau anghlinigol o'r staff fel tîm rheoli'r practis, staff y dderbynfa a'r staff gweinyddol.</p> <p><b><u>Yr hyn sydd angen ei wella</u></b></p>	<p>Safonau lechyd a Gofal (Ebrill 2015)</p> <p>7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Mae polisi cyfredol Meddygfa'r Llan ar Asesiad Risg a Gwiriadau Cyflogaeth yn nodi y dylai gwiriadau datgelu a gwahardd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (Gwiriadau Datgeli a Chofnod Troseddol CRB yn flaenorol)</p> <p>gael eu cynnal unwaith y gwneir cynnig amodol o gyflogaeth. Mae yna ddwy lefel o wirio: yn fras, bydd angen gwirio'r staff sy'n gweithio ar eu pen eu hunain gyda phlant ifanc a'r rhai sy'n agored i niwed. Er enghraifft meddygon a nyrsys. Nid yw staff y dderbynfa/staff gweinyddol yn debygol o fod ar eu pen eu hunain gyda'r uchod ac nid oes angen y gwiriadau hyn arnynt.</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r practis roi proses ar waith er mwyn sicrhau bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwiriadau cyn cyflogi ar gyfer pob aelod o'r staff yn cynnwys yr angen am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n briodol ar gyfer eu rolau</li> <li>Pob aelod presennol o'r staff yn cael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, sy'n briodol ar gyfer eu rolau. Mae'n rhaid cadw cofnod yn y practis.</li> </ul>		<p>Caiff y dull gweithredu hwn ei gefnogi gan ganllawiau a gyflwynir gan ffynonellau dibynadwy eraill e.e. Cymdeithas Feddygol Prydain a'r Comisiwn Ansawdd Gofal, dylid hefyd nodi nad oes gennym gyfrifoldeb contractiol ac nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol. Ar y gorau, mae'r canllawiau sydd ar gael yn aneglur ac yn agored i'w dehongli. Rydym wedi cymhwyso polisi ein practis gan fynd ati'n gydwbodol i ystyried y cyngor sydd ar gael a'n hasesiad o'r risg sy'n rhan ohono.</p> <p>Mae'n amlwg bod AGIC yn anghytuno â'n hasesiad risg yn yr achos hwn ac mae yna ddisgwyliad bod POB aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis yn cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan ei fod yn bosibl y byddant yn cael y cyfle (waeth pa mor anaml) i fod ar eu pen eu hunain gyda chlaf fel rhan o'u rôl.</p> <p>Byddwn felly'n sicrhau bod pob aelod o'r staff a gaiff eu recriwtio yn cael eu cynnwys yn y gofynion i gael gwiriad gan y Gwasanaeth</p>	<p>Amanda Edwards</p>	<p>Ar unwaith</p> <p>Pythefnos gwblhau'r i</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Datgelu a Gwahardd ar y lefel gofynnol, beth bynnag fo'u rôl yn y practis.</p> <p>Mae pob aelod o'r staff clinigol yn y practis wedi cael gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd uwch. Yn sgil eich cyngor, byddwn yn sicrhau bod gan bob aelod o staff y dderbynfa a'r staff gweinyddol wiriad safonol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.</p>	Amanda Edwards	ceisiadau ac 8 wythnos i gael ei brosesu

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y Gwasanaeth/Bwrdd Iechyd:

**Enw (llythrennau bras):** Amanda Edwards

**Rôl:** Rheolwr y Practis

**Enw (llythrennau bras):** Dr Andrew Moon

**Rôl:** Uwch-bartner Meddyg Teulu

**Enw (llythrennau bras):** Dr Toni Serra

**Rôl:** Partner Meddyg Teulu

**Enw (llythrennau bras):** Dr Heather Cox  
**Rôl:** Partner Meddyg Teulu  
**Enw (llythrennau bras):** Dr Apoorva Khare  
**Rôl:** Partner Meddyg Teulu  
**Dyddiad:** 12 Awst 2019



## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Meddygfa'r Llan

### Dyddiad arolygu: 17 Gorffennaf 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Rhaid i'r practis wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"><li>Ystyried sut i roi adborth i gleifion am unrhyw gamau gweithredu neu ganlyniadau sy'n deillio o'u hawgrymiadau</li><li>Sicrhau bod y ffeil cwynion yn cynnwys gwybodaeth lawn am y gŵyn, gan gynnwys canlyniad y gŵyn.</li></ul>	6.3 Gwranddo a Dysgu o Adborth	Byddwn yn sicrhau y caiff adborth ei rhoi i gleifion sy'n gwneud awgrymiadau a bod y canlyniadau'n cael eu dogfennu fel rhan o'r broses.  Byddwn yn sicrhau bod pob cofnod cwynion yn y dyfodol yn cynnwys canlyniad y gŵyn.	Amanda Edwards  Amanda Edwards	Ar unwaith  Ar unwaith
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn ar y thema hon.				

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
Rhaid i'r practis sicrhau bod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal ar bob lefel. Dylid dogfennu cofnodion o'r cyfarfodydd hyn a'u dosbarthu i bob aelod o'r staff, a dylai'r staff gadarnhau eu bod yn deall y cofnodion.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Byddwn yn sicrhau bod cofnodion cywir ar gael i'r holl staff perthnasol ar gyfer unrhyw gyfarfodydd yn y dyfodol. Bydd patrwm cyfarfodydd staff rheolaidd yn cwmpasu pob disgyblaeth sy'n gweddu orau i'n hanghenion cyfathrebu yn y practis yn cael ei sefydlu yn y 3 mis nesaf.	Amanda Edwards	3 mis

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Amanda Edwards**

**Teitl swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 17/09/2019**